Site Stakeholder Group

GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE WYLFA
CRYNODEB O BRIF BWYNTIAU'R CYFARFOD
A GYNHALIWYD DDYDD IAU 6 HYDREF YN YSTAFELL ELETH, CANOLFAN WYLFA

Ceir rhagor o fanylion yng Nghofnodion llawn y cyfarfod.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd Cadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safle Magnox.

- Nododd Cyfarwyddwr y Safle na fu dim digwyddiadau cymorth cyntaf ers y cyfarfod diwethaf a bod yr ymgyrch Targed Sero wedi cael ei lansio.

- Cyflwynwyd diweddariad ar brosiectau cyfredol yn adroddiad Cyfarwyddwr y Safle, gan gynnwys cydweithredu i weithgynhyrchu peiriant pwrpasol i hwyluso'r broses o waredu Gwastraff Lefel Ganolraddol o'r safle yn ogystal â'r cynnydd da sy'n cael ei wneud ar y llinell gwaredu elifiant gweithredol. Nodwyd dwy broblem cynnal a chadw ag offer trywydd tanwydd, ac yn achos un daeth yr ONR yn gysylltiedig ynglŷn â'r mater. Dywedwyd fod perfformiad safle Maentwrog wedi rhagori ar y targed ers y cyfarfod diwethaf o ganlyniad i'r glaw trwm a gafwyd yn ystod y cyfnod. Cafodd ffigurau gweithlu Wylfa wedi'u diweddaru hefyd eu cyflwyno yn ogystal â manylion am waith yn y gymuned. Hoffai Gordon Malcolm edrych ar y posibilrwydd o drefnu ymweliad â'r safle i aelodau'r GRhS a hysbysu'r grŵp o ba fath o ymweliad y gellir ei drefnu.

- Cafodd diweddariad yr ADN ei gyflwyno gan Jonathan Jenkin a dywedwyd fod hawliad am iawndal wedi'i ddyfarnu yn erbyn yr ADN, a bod yr apêl gyntaf wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd gwaith ar apêl arall wedi cychwyn ac roedd yn parhau. Cafwyd adroddiad gan yr ADN ar ddatblygiadau'n ymwneud â'r ystadau mewn safleoedd eraill yn y DU. Mynegodd yr ADN ei siom ynglŷn â phwyslais rhaglen deledu Panorama ar y BBC yn ddiweddar a oedd yn seiliedig ar agweddau diogelwch yn safle Sellafield. Roedd yr ADN yn adolygu perchnogaeth safle Maentwrog a'i asedau cysylltiedig. Nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto nac amserlen ar gyfer hyn hyd yma a cheir diweddariad wrth i gynnydd gael ei wneud.

- Byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer cyflwyniad RWM yn y cyfarfod nesaf.

- Cyflwynodd Nick Blackburn adroddiad y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) a dywedodd fod archwiliadau rheolaidd yn parhau ond nad oedd ddim problemau arwyddocaol wedi dod i'r amlwg ac nad oedd dim i achosi pryder ar hyn o bryd.

- Dywedodd y byddai taliadau diswyddo'n cael eu cyfyngu i'r rhai mewn cyflogaeth gyhoeddus a bod Wylfa yn aros am gynigion manwl y llywodraeth ynglŷn â pha sefydliadau a fyddai'n cael eu heffeithio gan y capio. Nid oedd yn hysbys eto a fyddai staff Wylfa'n cael eu heffeithio.

- Cyflwynodd Paul Wright adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a thynnodd sylw at ollyngiadau o Wylfa, a oedd o fewn y cyfyngiadau a bennwyd. Nid oedd gwaith monitro amgylcheddol rheolaidd CNC wedi dangos dim achos i bryderu. Dywedwyd nad oedd dim digwyddiadau wedi'i hysbysu na chamau gorfodi wedi'u cymryd gan CNC yn achos Wylfa ers y cyfarfod diwethaf.

- Rhestrodd Gordon Malcolm y gweithrediadau gwaredu gwastraff amrywiol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf, ac na fyddai'r rhain yn creu dim mwy o draffig nag yn ystod y gweithredu arferol blaenorol.

- Cafodd manylion am y ceisiadau diweddaraf i gynllun economaidd gymdeithasol Magnox eu cyflwyno gan Mair Jones yn ogystal â sefyllfa ariannol gyfredol y cynllun. Bydd manylion am ddau brosiect mawr sy'n rhan o'r cynllun yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y GRhS.